Cymuned Cas-Lai

2008 CYNLLUN GWEITHREDU

Planed

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GWEITHREDU CYMUNEDOL

Ar gyfer Castellhaidd 2008

Paratowyd mewn cydweithrediad â

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu

TABL CYNNWYS

CYNNWYS	TUDALEN
Cefndir y Cynllun Gweithredu	1
Ardal y Cynllun Gweithredu	1
Lle Arbennig	2
Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol	3
Rhoi'r Cynllun ar Waith	4
Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol	5
Yr Amgylchedd, Gwelliannau ac Ailgylchu	9
Treftadaeth a Hanes	12
Busnes a Thwristiaeth	14
Tai a Gwasanaethau	15
Traffig, Trafnidiaeth a Phriffyrdd	16
Gweithredu/Gweithgorau	18
Y Darlun Ehangach	18

Mae'r hyn a ddarganfuwyd adeg y gweithdy a chanlyniadau'r holiadur cymunedol wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn a ddosbarthwyd i'r holl drigolion cyn iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 29ain Ionawr 2009

Cefndir y Cynllun Gweithredu

Cymuned fach wledig yw Cas-lai sy'n cynnwys dwy anheddiad, Croes Castellhaidd a phentrefan Castellhaidd ei hun.

Yn 2008, penderfynodd y gymuned greu Cynllun Gweithredu - cafwyd ymarfer archwilio ym 1999 pan gynhaliwyd Gwerthusiad Cymunedol gan Fenter Preseli, felly roedd hi'n amser diweddaru'r wybodaeth.

Ym mis Medi cynhaliwyd dau weithdy Creu Gweledigaeth Gymunedol a hwyluswyd gan PLANED. Fe wnaethant helpu trigolion o bob oedran a chefndir i edrych o'r newydd ar anghenion a dyheadau'r pentref. Roedd y Gweithdai Creu Gweledigaeth Gymunedol yn cynnwys y gweithgareddau a ganlyn:

- Rhywbeth Arbennig– rhinweddau arbennig cymuned Castellhaidd.
- Archwiliad Cymunedol – rhestru'r prif nodweddion a chyfleusterau
- Y Gymuned mewn Cyd-destun Ehangach – ystyried materion lleol a byd-eang
- Gwendidau, Bygythiadau, Cryfderau a Chyfleoedd
- Y Weledigaeth ar gyfer 2018 – Castellhaidd yn y dyfodol.
- Archwiliad Sgiliau ac Adnoddau – egluro'r amrywiaeth o sgiliau lleol
- Gwireddu'r Syniadau – defnyddio gwybodaeth i gynllunio prosiectau

Fe wnaeth 25 o deuluoedd ymateb i'r holiadur cymunedol. Bu 18 ohonynt yn byw yn y gymuned ers dros 16 mlynedd, 19 ohonynt yn byw yn Nghasblaidd rhwng 6 a 15 mlynedd a'r gweddill yn byw yno am lai na 5 mlynedd.Ymhlith y rhesymau dros symud i'r gymuned yn y lle cyntaf, ac eithrio cael eu geni yma, oedd gwell ansawdd bywyd, ymddeoliad, lle da i fagu plant, cefn gwlad a bod yn agosach at ffrindiau a theulu. Diffyg rhesymau teuluol ac addysg a chyflogaeth oedd y rhesymau dros unrhyw fwriad i symud o'r gymuned.

Ardal y Cynllun Gweithredu

Mae plwyf gwledig Castellhaidd wedi ei leoli yng ngogledd orllewin Sir Benfro, tua saith a hanner milltir i'r gogledd orllewin o Hwlffordd.Rhed y B4330 trwy'r prif anheddiad gan hollti plwyf Croes Castellhaidd, lle lleolir tŷ tafarn y Cross Inn, tai a thyddynnod tua'r gogledd ar hyd y ffordd tuag at y gofeb rhyfel. Ym Mhont yr hafod, mae yna ysgol gynradd a hanner milltir tua'r gogledd y mae capel Bedyddwyr Newton.

Wrth droi tua'r gorllewin ger y Cross Inn fe ddewch i Gas-lai ei hun, calon hynafol y plwyf gyda'i eglwys ddarluniadol a'r castell tomen a beili a rhoddodd yr enw i'r gymuned. Mae yna hefyd dystiolaeth o wrthgloddiau hynafol eraill.

Mae nifer o ffermydd mawr yn nodi natur amaethyddol yr ardal. Mae chwarela yn rhan bwysig o'r economi lleol ac mae cipolwg ar fap arolwg ordnans yn dangos ehangder y gweithgarwch.

Mae llwybrau cyhoeddus yn croes - ymgroesi'r tir, a thua'r de gorwedda amryw o ardaloedd gweundirol gyda'u henwau barddol, Mynydd Rhyndaston, Mynydd Cuffern, Mynydd Dudwell a Mynydd Plumstone. Mae ffynhonnau a nentydd hefyd yn nodweddion yn yr ardal.

Lle Arbennig

Yn ystod y gweithdai Creu Gweledigaeth, fe wnaeth trigolion nodi rhinweddau arbennig Castellhaidd, sef cymuned gadarn gyda Chyngor Cymuned gweithgar a chyfuniad da o grwpiau lleol ar gyfer pob oedran sy'n trefnu digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd. Mynegwyd hefyd, falchder yn y lleoliad naturiol godidog, hanes lleol a'r iaith Gymraeg.

Gwerthfawrogir ansawdd yr amgylchedd lleol, ei olygfeydd, bywyd gwyllt a natur, heddwch a thawelwch, mynediad i lwybrau cerdded a mynydd Plumstone a mannau gwyllt eraill. Mae bodolaeth grŵp amgylchedd lleol, datblygiad coetir cymunedol a'r balchder o

dderbyn statws SSSI (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) yn dystiolaeth o ymrwymiad cadarn y gymuned i'r amgylchedd.

Mae yna hanes ym mhobman. Yn ogystal â'r castell tomen a beili sy'n rhoi'r enw i'r gymuned, mae yna garneddau, dwy eglwys, Eglwys y Santes Fair, Castellhaidd ac Eglwys St Lawrence. Welsh Hook, a dau gapel, Capel Blaen-llyn a Chapel Neuadd Brimaston . Ymhlith y nodweddion mwyaf diweddar mae ysgol, gorsaf radar rhybudd cynnar a'r gofeb rhyfel. Mae yna Gymdeithas Hanes lleol a llyfr, A Community's Way of Life, sy'n canolbwyntio ar hanes yr ysgol a gyhoeddwyd yn 2005 gan Alan Davies.

Yn ogystal â'i ansawdd ffisegol, nodwyd ymdeimlad o ysbryd cymunedol hefyd yn nodwedd gadarn - man lle mae gan bobl y 'gallu i gyd-dynnu' er mwyn cyflawni amrywiaeth o ddigwyddiadau. Maent yn amrywio o weithgareddau yn yr eglwys a'r capel i nosweithiau cwis yn y dafarn, ac, er bod y gymuned yn fach, mae yno nifer o fudiadau yn cynnwys Clwb Ffermwyr Ifanc, Sefydliad y Merched; y Gymdeithas Amgylchedd; pwyllgor sioe Castellhaidd; Cylch Ti a Fi a Chlwb dros 55.

Ymhlith y mannau cyfarfod mae'r parc chwarae sy'n dda nid yn unig i blant ond rhieni hefyd. Ystyrir Castellhaidd yn 'le grêt i fagu plant'. Mae yna falchder yn yr ysgol a gwir ymrwymiad i helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial. Gwerthfawrogir pobl hŷn a'u hamrywiaeth o sgiliau hefyd.Un mater sy'n achosi pryder yw'r bygythiad i Ysgol y Pentref. Byddai'r gymuned yn colli adnodd gwerthfawr iawn.

Ffermio yw diwydiant pennaf y gymuned ond mae yna nifer o fusnesau lleol eraill gan gynnwys y dafarn, chwarel, busnes trwsio ceir, planhigfa, pysgodfa brithyll a menter tybiau poeth.

Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Mae gan drigolion lleol weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n cynnwys cydbwyso'r ymdeimlad o 'bentref' sydd yno eisoes, cadw'r amgylchedd 'diogel a heddychlon'; yr ysgol, y maes

chwarae a'r dafarn, ynghyd â datblygu cyfleusterau a gweithgareddau, rheoli cyflymder traffig, gwella cludiant cyhoeddus a gwasanaethau. Ymhlith y gweledigaethau sydd gan bobl leol ynghylch dyfodol Castellhaidd, mae:

- Neuadd bentref/canolfan gymunedol ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau cymdeithasol. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys 'ystafell hyfforddi/gyfrifiadurol a meddygfa wythnosol.
- Awgrymwyd ymestyn y defnydd o'r ysgol a'r cae chwarae
- Mwy o weithgareddau cymunedol, yn enwedig dosbarthiadau min nos a darpariaeth TGCh.
- Ystyriwyd 'grŵp oedran cytbwys' a gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bwysig, gan gynnwys Clwb Ieuenctid, clwb brownis, sgowtiaid ac ati
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden, yn cynnwys cyrtiau tenis a pharc sglefrio.
- Trefnydd neu bwyllgor gweithgareddau i gydlynu digwyddiadau ac ati
- Cylchlythyr cymunedol i hysbysebu a hyrwyddo gweithgareddau
- Siop fferm a swyddfa bost
- Byddai angen parhau i ofalu am y dirwedd ar amgylchedd lleol, a chreu cyfleoedd i ddenu bywyd gwyllt ac adar.
- Adfywio'r grŵp hanes lleol er mwyn ymchwilio i'r tomen a beili, eglwys ac ati
- Mwy o dai fforddiadwy i gynyddu maint y gymuned.
- Defnydd cyfrifol o'r ffordd, a llwybr diogel i'r ysgol
- Cludiant cyhoeddus rheolaidd a rhad
- Byddai llwybrau troed a llwybrau beiciau yn helpu i gysylltu'r cymunedau
- Awgrymwyd hefyd, balmant i'r coetir cymunedol.
- Mae angen gwell cyfleusterau ailgylchu.

Rhoi'r Cynllun ar Waith

Er mai anheddiad bach, gwasgarog yw Castellhaidd, dengys nifer o'i thrigolion gwir ymrwymiad i fywyd cymunedol, gan wneud y mwyaf o'r hyn sydd eisoes yn bodoli, sef yr ysgol, eglwys, capel a

thafarn, a datblygu cyfleusterau pellach.

Serch hynny, mae yna deimlad y gallai mwy o bobl gyfranogi, a'r gobaith yw y bydd proses y Cynllun Gweithredu yn eu hannog i gymryd rhan ym mywyd y gymuned. Byddai ymdeimlad o hyder yn y gymuned yn helpu i wireddu prosiectau fel y ganolfan gymunedol.

Nodir syniadau ar gyfer gweithgareddau yn y Cynllun Gweithredu a fydd yn destun ymgynghoriad cymunedol eang. Bydd modd cytuno ar newidiadau terfynol adeg cyfarfod cyhoeddus, a bydd y broses yn darparu cyfle newydd i bobl leol gyfranogi.

Mae ffurfio Fforwm Cymunedol i ddatblygu cynigion y Cynllun Gweithredu yn ffordd ragorol o gynnwys pobl o bob oed a chefndir. Mae angen tystiolaeth o gyfranogiad cymunedol ar asiantaethau cyllid - mae Cynllun Gweithredu a hyrwyddir gan Fforwm Cymunedol gweithgar yn fan cychwyn defnyddiol iawn.

Bydd PLANED a phartneriaid yn cynorthwyo gyda gweithrediad y Cynllun Gweithredu. Gyda'i gilydd maen nhw'n medru cynnig cymorth arbenigol a chyllid ar gyfer prosiectau, gan gynnwys gwelliant, cadwraeth yr amgylchedd a dehongli hanes lleol

Cafodd y materion a godwyd adeg y gweithdai eu grwpio i themâu eang yn y Cynllun Drafft hwn. Lle'n briodol, maen nhw'n gysylltiedig â chynigion penodol ar gyfer safleoedd penodol.

Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Esboniad:
Oherwydd natur wasgarog y gymuned, ychydig o gyfleusterau sy'n bodoli ac mae braidd yn anodd creu ffocws go iawn ar gyfer gweithgareddau.

Yr ysgol gynradd, festri capel Bedyddwyr Newton, neuadd eglwys St Lawrence (ger Welsh Hook) a'r Cross Inn yw'r prif gyfleusterau a

ddefnyddir gan grwpiau cymunedol.

Fodd bynnag, gyda chyflwr festri'r capel ar ei waered a gwerthiant 'ystafell gefn' y dafarn, mae rhai grwpiau nawr yn cwrdd mewn lleoliadau y tu allan i'r plwyf neu wedi rhoi'r gorau iddi'n gyfan gwbl ee y clwb chwist, ar ofn yw y byddant yn 'diflannu' i Gas-lai.

Mae'r ysgol (*gweler y darlun isod*) yn adnodd pwysig yn y gymuned. Y mae wedi ei lleoli tua'r gogledd o Groes Castellhaidd ym Mhont yr hafod, lle mae yna deras bach o dai.

Ymhlith y gweithgareddau yn yr 'ysgol wledig, gyfeillgar' hon mae digwyddiadau i godi arian, dan ofal Cyfeillion Ysgol Castellhaidd. Mae Cylch ti a fi hefyd yn ei defnyddio.

Mae gan yr ysgol ei gardd ei hun ac enillodd dair gwobr Banner Werdd am ei hymwybyddiaeth a'i gweithgaredd -au amgylcheddol. Mae hysbysfwrdd cymunedol a mainc yn rhoi i'r safle naws cyfeillgar a chroesawgar .Mae Gorsaf Dywydd a Thŷ gwydr a dderbyniwyd dan nawdd grant ar gyfer y gymuned, wedi eu lleoli ar safle'r ysgol.

Mae yna le chwarae i blant gerllaw, ger y teras o dai. Dyma gyfleuster cymunedol poblogaidd yr hoffai rhieni ei weld yn cael ei ymestyn, gyda mwy o offer ar gyfer pob oedran.

Ymhellach tua'r gogledd ar hyd y ffordd mae Capel Bedyddwyr Newton, ger Croes Newton. Y gobaith ymhlith y bobl leol, yw y bydd festri'r adeilad hwn yn medru cynnig canolfan gymunedol newydd.

Mae Cyngor y Gymuned yn cyfarfod yma, a diogelwyd les rhad er mwyn datblygu'r cyfleuster. Bu'n gweithio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i godi arian a gwireddu'r weledigaeth am ganolfan gymunedol gydag adnoddau da, ynghyd ag ystafell 'Hyfforddi/TGCh a meddygfa wythnosol.Mae yna gynlluniau ar y gweill ymhen hir a hwyr i gynnwys toiledau cyhoeddus a chyfleusterau eraill ar y safle hwnnw.
Cwblhawyd y cam cyntaf pan sefydlwyd coetir cymunedol ar dir ger y capel.

Lleoliad arall yw'r neuadd fach yn Eglwys St Lawrence ger Welsh Hook, ar gyrion y plwyf. Nid oes yna neuadd gan Eglwys y Santes Fair, Castellhaidd ond cynhelir gwasanaethau ar y Sul ac ysgol Sul yn rheolaidd, ynghyd â chyfres o ddigwyddiadau cymdeithasol blynyddol sy'n gysylltiedig â'r calendr crefyddol.

Yn ogystal â bod yn fan cyfarfod, cynhelir amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol, yn cynnwys dartiau a chwisiau yn y Cross Inn, Croes Castellhaidd. Mae'n fan galw poblogaidd i'r orymdaith hen dractorau. Mae'r Grŵp Amgylchedd nawr yn cyfarfod yn yr Ysgol.

Gwerthfawrogir llawer o'r cyfleusterau hyn. Mae pobl leol yn awyddus i gael canolfan gymunedol bwrpasol yng nghapel y festri er mwyn darparu man cyfarfod a lleoliad ar gyfer meddygfa wythnosol ac ystafell ar gyfer dosbarth cyfrifiaduro a dosbarthiadau eraill. Cydnabyddir mai nod tymor hir ydyw, sydd angen cefnogaeth gan y gymuned gyfan a nawdd sylweddol.

Yn y cyfamser, mae pobl yn awyddus i ystyried datblygu gweithgareddau newydd ar gyfer pob oedran, efallai drwy ymestyn y defnydd a wneir o'r ysgol.

Ymhlith yr awgrymiadau mae dosbarthiadau celf a chlybiau crefft, dosbarthiadau min nos, tai chi, yoga a gymnasteg. Trafodwyd

hefyd ddigwyddiadau blynyddol fel pantomeim ac awgrymwyd y dylid ffurfio Pwyllgor Gweithgareddau.

Mynegwyd diddordeb hefyd i ddatblygu chwaraeon ac mae'r ffaith nad oes modd defnyddio cae chwarae'r ysgol oherwydd rhesymau yswiriant a'i statws fel cyfleuster yr ysgol, yn rhwystrol.

Mae yna frwdfrydedd go iawn i ddarparu mwy o weithgareddau i blant a phobl ifanc, gyda'r awgrymiadau yn amrywio o Glwb Ieuenctid i ddisgo a pharc sgrialuMae Grŵp Enfys a Phac Brownis eisoes wedi cychwyn.

Awgrymwyd adeg yr archwiliad sgiliau a hyfforddiant cymunedol a gynhaliwyd yn ystod y gweithdai creu gweledigaeth, bod gan drigolion ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Maent yn amrywio o arddio a sgiliau gyrru tractor, a sgiliau ysgrifenyddol a phwyllgora i ddrama ac adrodd storïau a chwnsela, gofal a sgiliau cerddorol.

Rhestrwyd hefyd, gwybodaeth am godi arian, sgiliau tirfesur ac adeiladu a chynllunio ariannol. Mae yna amrywiaeth o sgiliau chwaraeon ac roedd nifer o bobl am eu hennill, felly mae yna gryn botensial i gyfnewid a datblygu gweithgareddau newydd.

Mae'r modd pennaf o gyfathrebu yn cael ei wneud drwy hysbysfyrddau gwasgaredig, hysbysfwrdd yr ysgol a chlep a su. Awgrymwyd taflen newyddion bob yn ddeufis er mwyn cynnwys mwy o bobl a hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau. Mae taflen newyddion flynyddol y gymdeithas amgylcheddol yn bodoli eisoes ac awgrymwyd y gallai hwn fod yn 'fan cychwyn'. Dywed pobl leol bod angen gwella'r gwasanaeth Band Llydan.

Mae gweithgareddau i godi arian ar gyfer rhai o'r gweithgareddau newydd hyn erbyn hyn ar waith.
Mae'r ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu bod gan bobl ddiddordeb i edrych ar ôl eu hiechyd, a hoffent fwy o gyfleoedd i

wneud gweithgarwch corfforol. Ymhlith yr awgrymiadau i wneud hi'n haws i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, oedd gwell iechyd a gwell cyfleusterau lleol. Crybwyllwyd hefyd diffyg amser rhydd. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg llwybrau seiclo a chyfleusterau i bobl ifanc wneud gweithgarwch corfforol. Y ffordd fwyaf poblogaidd o wneud ymarfer corff yw cerdded a garddio.

Cynigion:

- Cefnogi cynlluniau Cyngor y Gymuned i ddatblygu festri'r capel er mwyn creu canolfan gymunedol hygyrch gydag adnoddau da.
- Yn y cyfamser, archwilio'r cyfleoedd i ymestyn y defnydd o'r cyfleusterau yn yr ysgol, gan gynnwys defnyddio cae chwarae'r ysgol ar gyfer chwaraeon.
- Cynnal arolwg gweithgareddau i ddarganfod union ddiddordeb pobl leol a'r hyn byddent yn fodlon ei wneud i gynnal unrhyw weithgareddau newydd.
- Ffurfio Pwyllgor Gweithgareddau i hyrwyddo digwyddiadau fel pantomeim.
- Datblygu'r syniad o gychwyn Clwb Ieuenctid. Darganfod faint o ddiddordeb sydd gan bobl ifanc; p'un ai fyddai rhieni yn fodlon helpu, a'r cymorth sydd ar gael gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Penfro.
- Archwilio'r potensial i ymestyn maes chwarae'r plant a chynnwys plant mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn ag offer newydd. Ymchwilio i'r cyllid sydd ar gael.
- Sefydlu cronfa ddata o sgiliau i sicrhau cynaladwyedd fel ffordd o wneud y mwyaf o sgiliau lleol. Gwneud y mwyaf o'r cynigion a'r wybodaeth leol a dderbyniwyd.
- Cysylltu â'r grŵp amgylchedd i ddatblygu taflen newyddion gymunedol bob yn ail fis. Recriwtio gwirfoddolwyr i grynhoi newyddion a dosbarthu taflenni newyddion. Holi busnesau lleol i noddi'r cyhoeddiad.
- Lobio i gael gwell gwasanaeth Band Llydan i gynorthwyo defnyddwyr preifat a busnes.

Yr Amgylchedd, Gwelliant ac Ailgylchu

Esboniad:
Mae lleoliad gwledig Castellhaidd yn rhan annatod o'i ymdeimlad o le. Mae'r golygfeydd tua Mynydd Plumstone sydd gerllaw a bryniau'r Preselau yn y pellter yn odidog ar ddiwrnod clir.

Mae natur amaethyddol y tir yn amlwg iawn gyda defaid a gwartheg yn pori yn y caeau tra bod y lleill yn cael eu defnyddio i dyfu cnydau. Mae yna nifer fawr o hen ffermydd mawr, yn ogystal ag ambell dyddyn.

Mae yna fryniau yn amgylchynu'r gymuned, ac iddynt enwau carismataidd, yn cynnwys Mynydd Plumstone, Cuffern a Mynydd Rhyndaston. Maent oll yn cael eu hystyried yn rhan o'r amgylchedd lleol ac mae yna hefyd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n destun balchder. Ymhlith y cynefinoedd eraill mae pyllau a sefydlwyd o ganlyniad chwarela gynt.

Mae pobl leol yn uchel eu cymhelliant pan ddaw hi i werthfawrogi'r amgylchedd. Mae yna grŵp amgylchedd tra sefydledig sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac eisoes wedi cynnal nifer o brosiectau. Yn eu plith mae darparu blodau o gwmpas y pentref sy'n helpu i hybu balchder yn y gymuned yn ogystal â chynnwys pob oedran ee mae plant yn helpu i baratoi basgedi blodau sy'n cael eu gosod ar y gofeb ar Ddydd Sul y Cofio.

Mae Cyngor y Gymuned yn weithgar iawn, ac fe wnaethant sefydlu'r coetir cymunedol sydd â'r potensial i fod yn adnodd lleol gwych yn y dyfodol. Ymhlith yr awgrymiadau cafwyd datblygu toiledau a chyfleusterau eraill yma.

Er ei fod yn gymharol newydd mae gan y safle sy'n ddwy erw, fan eistedd a theimlad croesawgar. Mae'r safle yn destun balchder i bob lleol ond maent yn teimlo y dylai fod yn fwy hygyrch a bod

angen llwybr o'r pentref.

Fe enillodd Clwb Ffermwyr Ifanc Castellhaidd Wobr Her Cymuned ac Amgylchedd Cymru Gyfan 2008 am y gwaith a gwblhawyd yn y coetir cymunedol. Mae gweithio ochr yn ochr â'r Ysgol, Cyngor y Gymuned a'r Grŵp Amgylchedd yn golygu ei fod wedi dyfod yn brosiect 'cymunedol' go iawn.

Ymhlith y gweithgareddau amgylcheddol eraill yn y gymuned y mae'r rheini yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ardd a gorsaf dywydd ac enillodd tair banner werdd am ei harfer amgylcheddol teilwn.

Mae'r ymdrechion cyffredinol i ofalu am yr amgylchedd yn cynnwys cerdded i'r ysgol yn hytrach na gyrru, felly'n gostwng yr allyriadau carbon, plannu blodau gwyllt a chennin Pedr, ac wrth gwrs, coed. Mae defnyddio llai o ynni ac ailgylchu yn rhan o ymwybyddiaeth ddyddiol y bobl. Mae'r ardd fasnachol organig leol yn destun balchder ac yn le y maen nhw'n teimlo y gallant ofyn am gyngor proffesiynol ar faterion amgylcheddol.

Mae gan y gymuned rhwydwaith dda a hawliau tramwy cyhoeddus sydd yn cael eu defnyddio'n weddol gyson, gyda phobl yn datgan bod cerdded, seiclo a marchogaeth ymhlith eu hobïau.

Roedd cynnal ansawdd naturiol yr amgylchedd a chymeriad y pentref yn nodwedd sylweddol o'r weledigaeth ar gyfer dyfodol Castellhaidd. Ymhlith yr awgrymiadau syml roedd gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ymestyn llwybrau troed a gwella mynediad i'r anabl. Roedd llwybrau i gysylltu cymunedau hefyd yn boblogaidd. Teimlai pobl y dylai fod yna gefnogaeth barhaus ar gyfer y grŵp amgylchedd a gweithgareddau'r ysgol.

Yn ystod y gweithdai, fe wnaeth trigolion ystyried materion byd-eang fel newid yn yr hinsawdd a sut yr oeddent yn effeithio ar fywyd lleol hefyd. Trafodwyd bwyd o ansawdd o ffynonellau lleol lle'n bosib a chadw amrywiaethau traddodiadol. Roedd gwaredu ar ddefnydd pacio dianghenraid a gwastraffu bwyd ymhlith y materion eraill a ystyriwyd yn bwysig.

Trafodwyd byw yn iach – gweithgareddau awyr agored yn hytrach na gwylio teledu, yn yr un modd ag osgoi siwrneiau gormodol mewn ceir, ond mae hyn yn anodd yng nghefn gwlad pan fod cyn lleied o gludiant cyhoeddus. Byddai modd archwilio'r cynnig i drefnu 'teithiau cerdded bywyd gwyllt'.

Trafodwyd mesurau a oedd modd eu cymryd ar lefel leol, fel ailgylchu ac arbed ynni yn y cartref, gan gynnwys cynllun cardiau Nadolig lleol a defnyddio coed Nadolig wedi eu potio yn hytrach na rhai wedi eu torri. Roedd colli gwasanaethau a siopau lleol yn destun pryder. Roedd yna sylw cyffredinol 'nad ydym yn medru bwyta arian' a chytunwyd bod angen i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Ystyriwyd datblygu prosiectau mewn ffordd gynaliadwy ee defnyddio contractwyr lleol a defnyddiau adnewyddadwy yn bwysig.

Mae cyfleusterau ailgylchu yn rhan allweddol o warchod yr amgylchedd ac mae trigolion Castellhaidd yn ailgylchwyr craff, gyda rhai yn compostio yn y cartref hefyd. Mae cynllun ' bag oren' y Cyngor Sir yn boblogaidd ond hoffai pobl weld cyfleusterau lleol ar gyfer ailgylchu gwydr.

Cynigion:

- Cefnogi'r Grŵp Amgylchedd i ddarparu gweithgareddau'n gysylltiedig ag amrywiaeth o destunau yn cynnwys bioamrywiaeth leol a hawliau tramwy cyhoeddus.
    - Parhau i annog ymdeimlad o gyfranogiad ar y cyd yn nhermau gofal am, a chadwraeth yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.
    - Parhau i blannu coed ac archwilio safleoedd bywyd gwyllt posib.
    - Ymgymryd ag arolygon llwybrau mewn cysylltiad â'r cyngor sir a thirfeddianwyr ac ystyried y potensial am fwy o lwybrau seiclo.
    - Adolygu arferion ailgylchu i gynnwys cymaint o ddefnyddiau â phosib.
    - Adolygu effeithlonrwydd ynni ar lefel bersonol a chymunedol a chymryd camau i godi ymwybyddiaeth ac

arbed ynni ymhob ffordd posibl.

- Archwilio'r potensial i gynnal archwiliad bywyd gwyllt ac adar a threfnu teithiau cerdded bywyd gwyllt lleol a fyddai'n gwneud y mwyaf o'r amgylchedd lleol, cadw llwybrau'n glir a hyrwyddo iechyd da drwy weithgareddau yn yr awyr agored.

reftadaeth a Hanes

Esboniad:
Mae treftadaeth a hanes yn rhan bwysig o hunaniaeth Castellhaidd, a'r nodwedd fwyaf arwyddocaol yw'r 'castell' tomen a beili a rhydd yr enw i'r pentref.

Mae modd gweld y domen a'r ffos sydd wedi eu lleoli ar dir preifat nid nepell o Eglwys y Santes Fair, ond maent yn erydu'n raddol a byddant yn diflannu ymhen ychydig flynyddoedd.

Mae'r llyfr hanes 'A Community's Way of Life' gan Alan Davies yn destun balchder i'r trigolion.

Hoffent adfywio'r gymdeithas hanes ac ymchwilio safleoedd lleol gan gynnwys y domen a'r beili, y garnedd, yr eglwys a'r capel ac ati.

Mae cerrig beddau'r eglwys yn ddiddorol ac yn rhoi gwir deimlad o fywydau'r cenedlaethau yng Nghas-lai – cafodd cerrig beddau'r eglwys yn Solfach eu catalogio fel rhan o ymchwil hanes lleol. Maes arall y byddai modd ymchwilio iddo, yw p'un ai a wnaeth pererinion canoloesol deithio drwy'r plwyf ar eu ffordd i Dyddewi.

Mewn perthynas â chyfnod hollol wahanol, mae yna ddiddordeb mawr yn safle Radar rhybudd cynnar yr RAF yng Nghroes Castellhaidd. Mae Mike Flude eisoes wedi cynnal peth gwaith ac

mae yna frwdfrydedd i ddatblygu hyn ymhellach, wedi ei ysbrydoli'n rhannol gan y gwaith a gwblhawyd ar faes awyr Kete, yn Dale.

Roedd yna hefyd diddordeb cyffredinol mewn gwerthfawrogi'r nodweddion unigryw lleol, sy'n cynnwys pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a gwarchod sgiliau traddodiadol. Byddai modd crynhoi'r gwahanol agweddau o hanes lleol ar ffurf taflen bentref gyda phaneli dehongli cysylltiedig mewn mannau allweddol. Byddai hyn yn sicrhau nad yw hanes lleol yn diflannu, ac yn cyfrannu at fwynhad pobl leol ac ymwelwyr.

Cynigion:

- ❑ Mesur y diddordeb i ailffurfio'r Gymdeithas Hanes lleol i:
  - Ymgymryd ag ymchwil pellach ar amrywiaeth o nodweddion.
  - Cynnal ymchwil penodol ar safle'r RAF.
  - Ystyried crynhoi taflen bentref a phaneli dehongli.
  - Archwilio'r syniad o drefnu arddangosfa hanes lleol
- ❑ Ceisio rhestr o nodweddion hanesyddol lleol gan Archaeoleg Cambria sy'n cadw cofnod o Safleoedd a Chofadeiladau Hynafol.
- ❑ Ceisio hyfforddiant a chymorth gan amrywiol asiantaethau, gan gynnwys Swyddog Hyfforddi Treftadaeth PLANED, Amgueddfeydd y Sir a'r Adran Gwasanaethau Diwylliannol.

Busnes a Thwristiaeth

Esboniad:

Amaethyddiaeth yw prif gynheiliad yr economi leol sydd â mentrau deilliedig fel contractio. Mae yna hefyd nifer o fentrau lleol eraill a pheth potensial am dwristiaeth gynaliadwy.

Mae busnesau lleol yn amrywio o'r dafarn yng Nghroes Castellhaidd, a busnes tybiau poeth i blanhigfa organig Rhyndaston, y dafarn, y chwarel a chwmni cig Welsh Hook. Mae trigolion yn falch iawn o'r busnesau lleol hyn ac maen nhw'n cefnogi cynnyrch lleol.

Eu dymuniad fyddai cael siop leol, o ddewis, siop fferm a swyddfa

bost gan eu bod nhw'n teimlo bod archfarchnadoedd yn dominyddu gormod ar y farchnad. Mewn ardal sy'n cynhyrchu bwyd, mae'n groes i brynu bwyd sydd yn teithio gymaint o filltiroedd.

Mae twristiaeth yn chwarae rôl gynyddol gyda phobl yn ceisio

ardaloedd mwy anghysbell i ymweld â hwy, er mwyn cerdded a difyrrwch eraill. Mae yna ddiddordeb i ddatblygu llwybrau lleol gan gynnwys llwybr bywyd gwyllt a byddent yn apelio at ymwelwyr yn ogystal â phobl leol. Mae yna gryn lawer o ddarparwyr llety gwyliau a busnesau, gan gynnwys y llynnoedd brithyll, sydd eisoes yn denu ymwelwyr.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar ddigwyddiadau blynyddol fel Sioe Castellhaidd a byddent yn buddio o ddenu ymwelwyr yn ogystal â phobl leol. Byddai nifer o ymwelwyr yn mentro ymhellach petai'n nhw'n ymwybodol o ddigwyddiadau lleol, felly mae'n bosib bod angen eu hyrwyddo drwy restru digwyddiadau'r sir ac ati. Yn yr oes hon o ddigwyddiadau corfforaethol, yn aml mae pobl yn ceisio gweithgareddau traddodiadol sy'n helpu i roi blas o'u hardal gwyliau dewisedig. Dyma gyfle gwych i werthu cynnyrch lleol ac ati.

Y mae gan dwristiaeth gynaliadwy, ar ffurf gwyliau cerdded a phecynnau amgylcheddol wedi eu teilwra, y potensial hefyd i hybu'r economi leol. Yr hyn sy'n tarfu arnynt yw'r diffyg hyrwyddo a chludiant cyhoeddus gwael. Nid yw cysylltiad band llydan sy'n wan iawn yn helpu chwaith. Yn ystod y gweithdai creu gweledigaeth, mynegwyd diddordeb i dderbyn gwybodaeth, cyllid a chymorth ar fentrau i gefnogi'r gymuned a busnesau.

Dengys yr holiadur cymunedol bod 11 o'r rheiny a wnaeth ymateb yn berchen ar, neu'n rheoli busnes yn y gymuned, gan gyflogi 8 o weithwyr llawn amser a 5 sy'n gweithio'n rhan amser. Maen nhw oll yn berchen ar eu heiddo.
Dengys yr holiadur cymunedol bod 11 o'r rheiny a wnaeth ymateb yn berchen ar, neu'n rheoli busnes yn y gymuned, gan gyflogi 8 o weithwyr llawn amser a 5 sy'n gweithio'n rhan amser. Maen nhw oll yn berchen ar eu heiddo. Anhawster mewn cael gafael ar staff

cymwys a hyfforddedig oedd y rhesymau dros beidio â chyflogi rhagor o staff. Byddai llai o fân-reolau a chysylltiadau Band Eang gwell o gymorth mawr i fusnesau lleol.

Cynigion:

- ❑ Cefnogi'r holl ymdrechion i hyrwyddo cynnyrch a busnesau lleol ee drwy'r cyfeirlyfr busnes lleol.
- ❑ Archwilio cyfleoedd i groesawi ymwelwyr drwy amlygu nodweddion arbennig fel y dirwedd olygfaol, cerdded a bywyd gwyllt.
- ❑ Lobio i wella cysylltiadau band llydan er mwyn hyrwyddo busnesau a chreu cysylltiadau cyflymach.
- ❑ Cefnogi digwyddiadau fel Sioe Castellhaidd er mwyn hyrwyddo rhinweddau lleol arbennig a pharhad y ffordd o fyw traddodiadol.
- ❑ Archwilio cyfleoedd i dderbyn cyngor a chymorth busnes am ddim.

Tai a Gwasanaethau

Esboniad:
Awgrymwyd yn ystod trafodaethau adeg y gweithdai creu gweledigaeth gymunedol y dylai datblygiadau tai yng Nghas-lai yn y dyfodol anelu i annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

Un nodwedd o Gas-lai yw'r teuluoedd a fu'n byw yno ers sawl cenhedlaeth, a dylai fod yn bosibl i bobl ifanc barhau i fyw'n lleol os dyna yw eu dymuniad. Byddai hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'u sgiliau a'u haddysg i hybu'r economi leol. Mae yna ddatblygu tai ar waith ar dir preifat rhwng Castellhaidd a Phont yr hafod (*gweler isod*). Mae'r Cynllun Datblygu lleol yn destun ymgynghoriad ond ar hyn o bryd does yna ddim tir ar gael i'w ddatblygu ymhellach.

Mae'n bwysig bod pobl leol yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol – er mwyn cydnabod safleoedd posibl a gynigir gan dirfeddianwyr preifat.

Cyfyng yw'r gwasanaethau yng Nghas-lai. Caiff papurau newydd

eu dosbarthu ac mae modd prynu wyau ffres yn lleol. Mae'r llyfrgell deithiol yn galw ac mae yna amrywiaeth arferol o wasanaethau fel dŵr, trydan a nwy. Does yna ddim gwasanaeth Pryd ar Glud na unrhyw wasanaethau eraill i bobl hŷn.

Cynigion:

Annog Cyngor y Gymuned i:

- ❑ Hysbysebu'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol
- ❑ Annog y Galluogwr Tai Gwledig i ymgymryd ag Arolwg Anghenion Tai lleol er mwyn asesu'r galw am dai i ar gyfer y rheini sy'n prynu am y tro cyntaf.
- ❑ Ymchwilio'r potensial i ddatblygu mwy o gyfleusterau ar gyfer pobl hyn lleol.

Traffig, Trafnidiaeth a Phriffyrdd

Esboniad:

Mae'r pryderon mwyaf sydd gan drigolion Castellhaidd ynghylch traffig a materion diogelwch ar y ffyrdd yn ymwneud â gyrwyr sy'n goryrru ar y ffyrdd cul, yn enwedig ger yr ysgol ac yn ystod misoedd yr haf.

Mae'r ffyrdd yn gymharol dawel a does yna ddim angen am fesurau gostegu traffig ar hyn o bryd ond mae'n rhaid annog pobl i yrru'n ofalus. Mae hyn yn berthnasol iawn gan fod llawer o bobl yn cerdded, seiclo a marchogaeth. Yn ogystal â hyn, mae mwy o bobl am gerdded eu plant i'r ysgol am resymau iechyd.

Mae nifer o bobl yn awyddus i weld palmentydd neu lwybrau yn cael eu datblygu i gysylltu Croes Castellhaidd â'r ysgol a'r lle chwarae ym Mhont yr hafod, y coetir cymunedol a'r capel yn Newton. Bydd yr olaf yn hynod bwysig pan fydd festri'r capel yn cael ei datblygu'n ganolfan gymunedol.

Cyfyng yw'r cludiant cyhoeddus ac un gysgodfa bysiau sydd yng Nghroes Castellhaidd.

Mae'r gwasanaeth bws 343B sy'n gyfyng iawn yn teithio i Hwlffordd ar ddydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener.

Mae pobl leol yn ceisio gwneud y mwyaf o'r gwasanaeth, yn enwedig y rheini sydd â thocynnau teithio am ddim.

Ar ddydd Iau mae yna dri bws, sy'n anarferol dros ben mewn ardal mor wledig.
Fodd bynnag, ar benwythnosau mae hen dractorau yn olygfa fwy cyfarwydd!

Yn ôl yr holiadur cymunedol, y car yw'r modd mwyaf poblogaidd o deithio i'r gwaith a chyrchu cyfleusterau. Fe wnaeth 12 o'r rheiny a ymatebodd ddatgan bod hi'n well ganddynt ddefnyddio'r bws/ cludiant cyhoeddus, lle'n bosib. Dywedwyd mai'r rhesymau dros beidio â defnyddio cludiant cyhoeddus yw diffyg llwybrau trwy'r pentref, diffyg gwasanaeth bws aml a chyfleus a theithiau cerdded hir i'r arosfannau bws.

Cynigion:

- ❑ Gweithio gyda Chyngor y Gymuned a Chyngor Sir Benfro i:
- ❑ Annog gyrru cyfrifol drwy'r pentrefi - byddai modd hyrwyddo hyn yn y daflen newyddion a thrwy arwyddion wedi eu creu gan blant ysgol, fel yn Y Garn.
- ❑ Archwilio'r potensial i ddatblygu llwybr rhwng Croes Castellhaidd a Phont yr Hafod er mwyn creu mynediad diogel i'r ysgol ar le chwarae.
- ❑ Ceisio cymorth y swyddog Cludiant Gwledig i ymchwilio i wasanaeth bws cymunedol er mwyn ehangu'r opsiynau cludiant cyhoeddus.

Gweithredu/Gweithgorau

Er mwyn datblygu'r Cynllun Gweithredu'n effeithiol cynigir bod angen ffurfio Fforwm Cymunedol. Gallai gweithgorau ddatblygu'r cynigion - gan adrodd yn ôl i'r Fforwm Cymunedol cyfan - ac mewn ymgynghoriad â Chyngor y Gymuned, cysylltu â darparwyr perthnasol ee yr Awdurdod Priffyrdd.

Byddai'r Gweithgorau yn canolbwyntio ar:

- ❑ Y Gymuned - cyfleusterau, gweithgareddau a chyfathrebu
- ❑ Yr Amgylchedd – gan gynnwys hawliau tramwy, ynni a gwastraff
- ❑ Treftadaeth
- ❑ Busnes a Menter
- ❑ Gweithio gyda Chyngor y Gymuned ar:
  - Dai a Gwasanaethau.
  - Trafnidiaeth, Traffig a Phriffyrdd

Mae'n bwysig bod y Grwpiau yn:

- ❑ Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu cytûn ac yn adrodd i'r Fforwm Cymunedol
- ❑ Gweithio gyda grwpiau presennol, gan gynnwys Cyngor y Gymuned ac asiantaethau.
- ❑ Cyfarfod yn rheolaidd – o leiaf pedair gwaith y flwyddyn.
- ❑ Hysbysu'r gymuned ehangach ynglŷn â chynnydd.

Byddai PLANED ac asiantaethau partner yn cynnig cymorth, cyngor a chyllid i helpu datblygu cynigion y Cynllun Gweithredu.

Darlun Ehangach

Mae **Cynllun Gofodol Cymru** yn darparu'r cyd-destun a'r cyfeiriad ar gyfer cynlluniau datblygu lleol a gwaith y byrddau gwasanaeth lleol.

O fewn y Cynllun Gofodol cyffredinol mae **Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro** sy'n hyrwyddo gweledigaeth, sef 'rhwydwaith o gymunedau cadarn gyda chefnogaeth economi gadarn,

gynaliadwy, amrywiol sy'n ychwanegu gwerth uchel i'r economi, sy'n cael ei chynnal gan amgylchedd unigryw'r ardal, mynediad arforol ac ynni a thwristiaeth sydd o bwysigrwydd rhyngwladol.'

Y Cynllun Cymunedol- Ers dechrau 2000 bu partneriaeth sy'n cynnwys mudiadau cyhoeddus a gwirfoddol allweddol yn gweithio ar Gynllunio Cymunedol. Mae'r awdurdod lleol, Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am gymryd y blaen wrth gyflawni'r weledigaeth, ynghyd â chymorth gan bartneriaid, cymunedau lleol a phobl leol.

Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)- Mae Cyngor Sir Penfro yn paratoi cynllun datblygu lleol newydd mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Y CDLl yw'r cynllun cyffredinol ar gyfer Sir Benfro - gyda chefnogaeth arae o bartneriaethau, cynlluniau a strategaethau mwy manwl.

Ei nod yw cyflawni gwasanaethau mewn ffordd hawdd gan amlygu'r materion 'ansawdd bywyd' allweddol. Mae'n gysylltiedig ag adran 'Sir Benfro -Yr Hafanau' yng Nghynllun Gofodol Cymru a chynlluniau partneriaid allweddol fel y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Mae'r cymunedau'n derbyn ymgynghoriad ar yr holl gynlluniau, yn ogystal â strategaethau plismona, addysg, cludiant, tai ac ati. Mae'n bwysig bod gan bobl leol fforwm i gwrdd â thrafod syniadau ar gyfer y dyfodol wrth iddo baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno ymatebion cytbwys i'r amrywiol ymgynghoriadau. Y mae hefyd yn galluogi cymunedau i gymryd mantais o'r cymorth a'r cyllid a allai fod ar gael gan wahanol awdurdodau yn y dyfodol.